Taith Peripatetig yn y Neuadd Fawr

Bydd blynyddoedd 3-6 yn cerdded i'r Neuadd Fawr ar fore dydd Mawrth y 10^{fed} o Fehefin i wylio perfformiad gan yr athrawon offerynnol. Gan ein bod am gerdded, does dim cost ynghlwm wrth y digwyddiad hwn.

Peripatetic visit to the Great Hall

Years 3–6 will walk to the Great Hall on the morning of Tuesday, June 10th to watch a performance by the instrumental peripatetic teachers. As we will be walking, there is no cost associated with this event.

Dysgu am ddiogelwch y glannau

Bydd cynrychiolwyr yr R.N.L.I yn ymweld â'r ysgol ar brynhawn dydd Mawrth y 10^{fed} o Fehefin i drafod diogelwch y glannau gyda phawb o'r Derbyn i Flwyddyn 6.

Learning About Water and Beach Safety

Representatives from the R.N.L.I will visit the school on the afternoon of Tuesday, June 10th to talk about beach safety with everyone from Reception to Year 6.

Tynnu lluniau dosbarthiadau

Ar ddydd Mercher yr 11^{eg} o Fehefin mi fydd cwmni Tempest yn tynnu lluniau'r plant yn eu dosbarthiadau/blynyddoedd dysgu.
Bydd angen i'r plant fod yn gwisgo naill ai siwmper/crys polo **coch** yr ysgol, neu'r crys polo **gwyn**. Os hoffech brynu gwisg ysgol ail-law yn barod ar gyfer y lluniau, bydd stondin 'Y Lein Ddillad' tu allan i brif fynedfa'r ysgol fore dydd Llun lle bydd dillad ar gael am £2 yr eitem.

Class Photographs

On Wednesday, June 11th, Tempest Photography will be taking photos of the children in their classes/year groups.
*Children will need to wear either the school's **red** jumper/red polo shirt or the **white** polo shirt.*
If you would like to purchase second-hand school uniform in preparation for the photos, the 'Lein Ddillad' stall will be outside the main school entrance on Monday morning, where clothes will be available for £2 per item.

Gŵyl Ffilm Trwy'r Lens 2025

Bydd Blwyddyn 6 i gyd a chriw cân actol Blwyddyn 5 yn mynychu Gŵyl Ffilm yn y Llyfrgell Genedlaethol ddydd Iau nesaf – 12^{fed} o Fehefin. Byddant yn cerdded yno ac yn ôl. Does dim cost ynghlwm â'r digwyddiad hwn.

Through the Lens Film Festival 2025

All of Year 6 and the Year 5 cân actol members will be attending a Film Festival at the National Library next Thursday – June 12th.
They will walk there and back. There is no cost associated with this event.

Gig y Welsh Whisperer

Byddwn yn cynnal Gig yng nghwmni'r Welsh Whisperer yn Neuadd yr ysgol brynhawn dydd Gwener y 13^{eg} o Fehefin. Bydd cyfle i bawb fynychu'r gig, ac os fydd hi unrhywbeth yn debyg i'r gig diwethaf ganddo yn 2019, bydd pawb wrth eu boddau! Does dim cost ynghlwm â'r gig – mae'n rhan o wariant y disgyblion yn dilyn y rhodd o £250 i bob dosbarth gan y G.Rh.A yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn iddyn nhw.

Welsh Whisperer Gig

We will be hosting a gig with the Welsh Whisperer in the school hall on the afternoon of Friday, June 13th. Everyone will have the opportunity to attend the gig, and if it's anything like his last one in 2019, everyone will absolutely love it! There is no cost for the gig – it is part of the pupils' spending following the recent £250 donation to each class by the PTA. A big thank you to them.

Sioe Aberystwyth

Mae Mrs Buddug Davies eisoes wedi rhannu copïau papur o gystadlaethau cynradd Sioe Aberystwyth eleni gyda phawb. Gweler y ddolen isod i'r rhaglen yn llawn. Os hoffech i'r ysgol fynd ag eitemau i'r Sioe bydd angen iddynt gyrraedd Mrs Davies ym mlwyddyn 5 erbyn dydd Gwener y 13^{eg}. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar lythyr Mrs Davies, sef i

1. *osod y label ar y cefn gan ddefnyddio clip papur ac nid glud, gyda'r wybodaeth yma os gwelwch yn dda:*
2. *eich enw llawn ar y cefn*
3. *enw Dosbarth a Blwyddyn*
4. *rhif y gystadleuaeth yn glir*

Rhaglen Sioe Aberystwyth

Aberystwyth Show

Mrs Buddug Davies has already shared paper copies of this year's Aberystwyth Show primary competitions with everyone.
Please see the link below for the full programme.
If you would like the school to take items to the Show, they must reach Mrs Davies in Year 5 by Friday, June 13th.
Please follow the instructions in Mrs Davies's letter, which are:

1. *attach the label to the back using a paperclip, not glue, with the following information:*
2. *your full name on the back*
3. *class name and Year group*
4. *the competition number clearly visible*

Aberystwyth Show Programme

Mabolgampau Ysgol

Cynhelir y Mabolgampau Ysgol ar ddydd Iau y 19^{eg} o Fehefin ar Gaeau yr Ysgol a Chaeau Ysgol Penweddig. Maent yn cychwyn am 12:45yp ar gyfer Bl.1-6 (am 1 o'r gloch i'r Meithrin a Derbyn) Mae croeso i chi fel rhieni i ddod i gefnogi, a bydd rasys ar eich cyfer ar ddiwedd y prynhawn! Mae'r G.Rh.A yn awyddus i gael cymorth ar y stondin – dyma ddolen ganddynt i ofyn pwy fyddai'n medru cynorthwyo am 15 munud ar y diwrnod: Dolen i Forms y GRhA

Dolen i Raglen y Mabolgampau Ysgol

School Sports Day

The School Sports Day will be held on Thursday, June 19th on the School Field and Penweddig School Field. It will start at 12:45pm for Years 1–6 (and at 1:00pm for Nursery and Reception).
Parents are warmly invited to come along and support — and there will be races for you at the end of the afternoon!
The PTA is keen to get some help on the stall — here is a link from them asking who's available for a 15 minute slot: Link to PTA Forms

Link to Sports Day Timetable

Gwiriwch eich ffolder Junk

Rydyn ni'n clywed gan rai teuluoedd fod negeseuon gan yr ysgol yn cyrraedd yn eich ffolder junk/spam yn hytrach nag yn yr inbocs. Yn anffodus, does dim modd i ni reoli hyn. Rydym yn awgrymu'n garedig eich bod yn gwirio'ch ffolder junk yn ogystal â'r inbocs er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn holl negeseuon yr ysgol.

Check Your Junk Folder

We hear from some families that school messages are arriving in their junk or spam folders rather than their inbox.
Unfortunately, we have no control over this.
We kindly suggest checking your junk folder alongside your inbox to ensure you receive all school communications.

Gwybodaeth ychwanegol

Atodaf wybodaeth ychwanegol ar ddiwedd y llythyr hwn – maent yn bosteri am ddigwyddiadau lleol amrywiol i'ch cynorthwyo chi fel rhieni a gofalwyr gyda gweithgareddau.

Sylwch ar y set o lyfrau am Ewro 2025 – gyda chymaint o ddiddordeb gan y plant rydym wedi prynu set ar gyfer yr ysgol. Mae'n bosib byddant yn gofyn am gopi o'u hoff lyfr i chi brynu adref!

Additional information

I am attaching additional information at the end of this letter - they are posters about various local events to assist you as parents and carers with activities.

Notice the set of books about Euro 2025 - with so much interest from the children we have bought a set for the school. It is possible they will ask for a copy of their favorite book for you to buy at home!

Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

Instagram

Events and achievements

Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.
From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.

Instagram



Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

Half term Calendar

Here is the link to the Half Term Calendar
A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.

Dyddiadau pwysig Tymor yr haf:

- Tynnu lluniau dosbarthiadau : Mehefin 11eg
- Mabolgampau Ysgol : Mehefin 19eg
- H.M.S : Ysgol ar gau Mehefin 27ain
- Ffarwelio dros y ffens : Gorffennaf 7fed
- Barbeciw/Gŵyl haf y G.Rh.A : Gorffennaf 17eg
- Diwrnod ola'r tymor : Gorffennaf 18fed

Summer term important dates:

- *Class photographs : June 11th*
- *School Sports Day : June 19th*
- *I.N.S.E.T Day : School closed June 27th*
- *Farweling over the fence¬*
- *PTA Barbeque/Summer Festival : July 17th*
- *Last day of term : July 18th*

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.
If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.

Yn gywir,
Gareth L James
Pennaeth / *Headteacher*
06/06/2025
www.ysgolgymraeg.cymru


LLYFR LLIWIO
PÊL-DROED CYMRU
WALES FOOTBALL
COLOURING BOOK


YMLAEN Â HI!
MENYWOD CYMRU YN MYD Y CAMPAU
Elin Williams


CAMPAU CAMPUS
PÊL-DROED
PENIGAMP


Stori Sydyn
£1
Y GOLIAU
A'R DAGRAU
Stori Tash Harding
DYLAN EBENEZER


Y DYN DWEUD DREFN
YN CHWARAE PÊL-DROED
Lleucu Fflur Lynch
Gwen Millward

Ewro
2025
Y SWISTIR
Ff'on Eluned Owen

Bore Agored
Open Morning
CYLCH MEITHRIN
ABERYSTWYTH
27/06/25
9:30-11:30
Cyfle i ddarpar rieni a phlant i edrych o gwmpas i weld beth sydd gan ein Cylch i gynnig.
An opportunity for prospective parents and their children to have a look around and see what our Cylch has to offer.
Sesiwn Bore/Prynhawn
Gofal Cinio
Cinio Poeth
Trosglwyddo i'r ysgolion cynradd lleol
Gofal trwy'r dydd
Morning/Afternoon Session
Lunchtime Supervision
Hot Lunches
Pick up and drop off at local schools
All day session
CANOLFAN INTEGREDIG MUDIAD MEITHRIN
BOULEVARD DE SAINT BRIEUC
ABERYSTWYTH
SY23 1PD
01970 639670
cylchmeithrinaberystwyth@gmail.com

Cylch Meithrin
Aberystwyth
mudiad meithrin
Ydy eich plentyn chi rhwng 2 a 5 oed?
Rhowch gynnig ar addysg cyn ysgol! Dechrau da i'ch plentyn!
Is your child between 2 and 5 years old?
Give pre-school a go! A great start for your child!
Amseroedd agor /
Opening Times
(Yn ystod tymor ysgol /
Term time only):
Llun / Monday: 8:45 - 3:45
Mawrth / Tuesday: 8:45 - 3:45
Mercher / Wednesday: 8:45 - 3:45
Iau / Thursday: 8:45 - 3:45
Gwener / Friday: 8:45 - 12:45
Gwasanaethau
Services
Rydym yn darparu gwasanaeth casglu a chludo i Ysgol Gymraeg ac Ysgol Plascrug.
We provide a service of collecting and transfering your child to and from Ysgol Gymraeg and Ysgol Plascrug.
Cinio poeth ar gael!
Hot meals available!
Cysylltwch â ni heddiw
Contact us today
Carys Lloyd
cylchmeithrinaberystwyth@gmail.com
Cylch Meithrin Aberystwyth, Y Ganolfan Intergredig, Boulevard de Saint Brieue, SY23 1PD / 01970 639670
Cylch Meithrin Aberystwyth
Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales
Dechrau'n Deg
Flying Start
FOOD HYGIENE RATING
5